De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

COFNOD PENDERFYNIADAU COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU Ebrill 2019 - Rhagfyr 2019

DYDDIAD	CAIS AM BENDERFYNIAD	GWYBODAETH ATEGOL	CYMERADWYWYD/GWRTHODWYD
01/04/2019	Cymorth i ailfrandio ac ailalinio'r broses Sbardun Cymunedol i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd	Cynnig i ailfrandio'r Sbardun Cymunedol i Adolygiad Achos Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth well i sefydliadau yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd o'r hyn y gall adolygiad achos Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ei gyflawni. Ni fydd unrhyw oblygiadau cost.	Cymeradwywyd
01/04/2019	Ariannu system rheoli achosion ASBIT	Angen cymeradwyaeth i barhau i ariannu system rheoli achosion ASBIT a ddefnyddir gan yr heddlu a'r awdurdodau lleol. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn talu cost cymorth a chynnal a chadw flynyddol 7 partneriaeth diogelu cymunedol, sy'n swm o £25,770.55.	Cymeradwywyd yn amodol ar adolygiad pellach
01/04/2019	Ariannu lle yn Uwchgynhadledd Llywodraethu'r Heddlu 2019	Cynhelir Uwchgynhadledd Llywodraethu'r Heddlu ddydd Mercher 2 Gorffennaf yn Daventry. Caiff ei chynnal gan CoPaCC, yr arbenigwyr ar Lywodraethu'r Heddlu. Mae'n cynnwys sesiynau a gaiff eu rhedeg a'u llywio gan awdurdodau	Cymeradwywyd

		cenedlaethol amlwg ac arbenigwyr pwnc. Byddwn hefyd yn derbyn ein Gwobr Tryloywder.	
01/04/2019	Hyfforddiant SANCUS	Mae SANCUS yn gwmni hyfforddi sy'n darparu hyfforddiant arbenigol i Adran Safonau Proffesiynol, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Darperir hyfforddiant i bob un o bedair swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (OPCC), a rhennir y costau yn gyfartal rhwng pob un ohonynt. Bydd yr hyfforddiant hwn yn paratoi ar gyfer y rôl estynedig y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ei chyflawni mewn perthynas â chwynion yr heddlu o dymor yr hydref ymlaen.	Cymeradwywyd
01/04/2019	Cymryd rhan ym Mela Amlddiwylliannol Caerdydd	Mae Mela Amlddiwylliannol Caerdydd yn darparu cyfle ardderchog i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd a chynyddu ein gweledigaeth. Mae angen cymorth ar gyfer pecyn os ydym am gymryd rhan sy'n cynnwys brandio noddwyr, tocynnau cefn	Cymeradwywyd

		llwyfan, hyrwyddo cynnyrch, hawliau ffotograffau a sylw yn y cyfryngau.	
01/04/2019	Ymchwil Academaidd KESS - gwerthusiad o weithio mewn partnertiaeth ledled Cymru	Ymchwil academaidd arfaethedig a gynhelir gan Brifysgol Abertawe o dan yr Ysgoloriaeth Gwybodaeth, Economi a Sgiliau, ac yn enwedig i asesu effaith mentrau fel Dyfodol ar ddull plismona iechyd cyhoeddus. Mae'r Comisiynydd wedi gofyn am gyfraniad o £4500 i ymgymryd â'r gwaith hwn.	Cymeradwywyd
08/04/2019	Cyllid IDVA/ISVA	Rhoi gwobr o £111,757.50 o'r gyllideb gwasanaethau dioddefwyr i ariannu darpariaeth IDVA/ISVA yn ardal De Cymru ar ôl proses gwneud cais lem.	Cymeradwywyd
11/04/2019	Prydlesu Uned ar Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer cyfleuster hyfforddiant tactegol	Mae'n ofyniad brys ein bod yn dod o hyd i safle addas ar gyfer hyfforddiant arfau tanio gan fod cynydd sylweddol wedi bod yn yr hyfforddiant sydd ei angen oherwydd yr angen cynyddol am swyddogion arfau tanio mewn amrywiaeth o amgylchiadau gweithredol. Bydd angen uned	Cymeradwywyd

		benodol gyda'r arian yn dod o Gyllideb yr Uned Arfau Tanio ar y Cyd.	
13/06/2019	Nawdd ar gyfer y Gynhadledd Plismona LGBT Genedlaethol	Rhoi £2,500 tuag at y Gynhadledd Plismona LGBT Genedlaethol, a drefnwyd yn ei gyfan gwbwl gan rwydwaith Heddlu LGBT Cymru. Dyma'r tro cyntaf i'r gynhadledd flynyddol ddod i Gymru. Bydd logo'r Comisiynydd yn amlwg ledled y gynhadledd.	Cymeradwywyd
17/06/2019	Darparu cymorth ac ymrwymiad (yn cynnwys ymrwymiad ariannol) i Brosiect Drive	Mae Prosiect Drive yn codio, profi ac ailadrodd ymateb ataliol i gyflawnwyr trais risg uchel. Darperir ymrwymiad ariannol o £270,000 er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gael ei ddarparu drwy gydol 2019-20.	Cymeradwywyd
17/06/2019	Trosglwyddo arian cronfa eiddo'r heddlu i'r Ymddiriedolaeth Ieuenctid	Trosglwyddo £100,000 o Gronfa Eiddo'r Heddlu i'r Ymddiriedolaeth Ieuenctid i'w glluogi i hyrwyddo ei waith ac i annog rhoi drwy'r gyflogres.	Cymeradwywyd
01/07/2019	Opsiynau ar gyfer dyfodol ASBIT	Ar gyfer newidiadau sydd angen eu gwneud i'r system rheoli achosion a ddefnyddir ar gyfer monitro achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol	Derbyniwyd

		ar gyfer cynaliadwyedd data ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dyfodol y mae ASBIT yn ei ddal ar hyn o bryd, a fydd yn ddiwerth mewn amser. Y goblygiad cost fyddai £4,400 + TAW i'w gymryd o'r Gronfa Diogelwch Cymunedol.	
03/07/2019	Cais am gael ein heithrio o'r weithdrefn dendro i archebu gwasanaethau Rheoli Rhaglenni i gefnogi rhaglen NOMADS a chymeradwyaeth i ddefnyddio gwasanaethau Farsight Solutions Ltd	Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnwyd grant o £472,000 i raglen NOMAD o gronfa drawsnewid yr heddlu gyda gofyniad i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig erbyn mis Mawrth 2019. Roedd angen sicrhau gwasanaeth ymgynghorol ar fyrder i gyflawni'r canlyniadau, nad oedd yn gadael digon o amser i gynnal proses dendro gystadleuol.	Cymeradwywyd
24/07/2019	Rhoi cyfraniad o £1000 tuag at Garnifal Butetown.	Rhoi cymorth ariannol tuag at drefnu Carnifal Butetown, sydd â'r nod o ddod â phobl at ei gilydd a dathlu cynhwysiant ac amrywiaeth y gymuned.	Cymeradwywyd

29/07/2019	Cyfraniad tuag at Dîm Achub Mynydd y Bannau Canolog ar gyfer cyfleuster storio diogel ac ystafell yn Safle'r Gwasanaeth Tân	Dinistriodd tân yn 2017 ran helaeth o safle Gwasanaeth Achub Mynydd Bannau Brycheiniog ac felly roedd angen help arnynt i ailadeiladu.	Cymeradwywyd - dywedodd y Comisiynydd "mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru ac yn darparu gwasanaeth gwirfoddol amrhisiadwy i'r cyhoedd, ac mae'r cyfraniad yn adlewyrchu'r gwerth i wasanaeth yr heddlu".
15/08/2019	Cais am arian cychwynol i lansio prosiect IRIS yn Ardal Castell-nedd a Phort Talbot am gost o £50,000.	Dylai'r arian gael ei ddisodli gan ffrydiau eraill yn yr hydref ac mae cynnig ffurfiol yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd i gwmpasu costau rhedeg IRIS yn yr ardal hon.	Cymeradwywyd - ar y sail bod angen cychwyn ar y gwaith cyn gynted â phosibl.
15/08/2019	Cais am gael ein heithrio o'r weithdrefn dendro i sicrhau y gall Prifysgol Metropole Llundain gwblhau gwerthusiad o'r model 'Newid sy'n Para'	Bydd gwerthusiad o'r model Newid sy'n Para yn ofynnol fel rhan o'r gronfa trawsnewid gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod a Merched y Swyddfa Gartref yn 2017. Oherwydd materion capasiti nid oedd yn bosib i Iechyd	Cymeradwywyd

		Cyhoeddus Cymru gwblhau'r gwaith gwerthuso yn ôl y gofyn. Gan nad oedd digon o amser i gwblhau proses dendro gywir, casglwyd datganiadau o ddiddordeb gan 5 sefydliad a hwn oedd yr un a oedd yn darparu'r gwerth gorau am arian am gost o ryw £58,000 o gyllideb VAWG.	
04/09/2019	Cais am gymorth ariannol o £500 i gefnogi digwyddiad cydlyniant	Mae Cystadleuaeth Pêl-droed Pencampwriaeth Prydain, sy'n cynnwys 8 tîm, yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd. Diben y gystadleuaeth yw mynd i'r afael â pheth o'r trais difrifol sy'n cynnwys pobl ifanc o gefndiroedd BAME a sut y gall pŵer ac apêl unigryw pêl-droed helpu i fynd i'r afael â'r pryder parhaus hwn.	Cymeradwywyd
04/09/2019	Prynu eiddo i'w ddefnyddio fel cyfleuster hyfforddiant taser	Mae'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i gynyddu'r nifer o staff sydd wedi'u hyfforddi i gario taser a chanlyniad hyn fydd gofyniad i ymestyn y cyfleuster hyfforddiant taser yn yr heddlu. Mae cyfleuster warws ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'i	Cymeradwywyd

		ganfod am gost o £24,150 y flwyddyn a chaiff ei ariannu gan y gyllideb troseddau cyllyll. Gofynnir am gymeradwyaeth i ymrwymo i brydles 5 mlynedd.	
04/09/2019	Cais am gyllid ar gyfer lansio strategaeth cam 2 VAWG 2019-24 a digwyddiad bord gron	Mae mynd i'r afael â strategaeth VAWG wedi'i ddosbarthu i bartneriaid fel lansiad meddal, mae angen i lansiad cam 2 ganolbwyntio ar ymyriadau cynnar ac atal. Byddai'r lansiad yn cynnwys llogi ystafell gynadledda, bwffe, a darparu llenyddiaeth a siaradwyr, am gost o £2500.	Cymeradwywyd
30/09/2019	Cais am gymorth ar gyfer Bwrsari Stephen Lawrence	Mae'r APCC a Chymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Du wedi gofyn i bob Comisiynydd gyfrannu at fwrsari Stephen Lawrence. Bydd hyn yn dpararu lleoliad i swyddogion BME astudio yn UDA am gyfnod o amser gyda'r nod o feithrin cydberthnasau gyda chymunedau a throsglwyddo'r dysgu am gost o £1700.	Cymeradwywyd

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

30/09/2019	Cais i dalu cyfraniad tuag at Wobrau Heddlu De Cymru	Mae Heddlu De Cymru wedi gofyn am gymorth ariannol i ariannu Seremoni Wobrwyo'r heddlu a gaiff ei hariannu'n allanol fel arfer, am na cyllidwyr allanol helpu eleni am eu bod yn rhan o brosesau caffael. Gofynnwyd i'r Comisiynydd a allai noddi'r gwobrau am swm o £5000 gan fod y Comisiynydd yn chwarae rhan allweddol yn y digwyddiad ac mae ganddo wobr yn ei enw.	Cymeradwywyd
30/09/2019	Cais am gymorth ar gyfer cais Race Council Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru am gymorth ariannol.	Gofynnwyd am gyllid gwerth £3500 i gefnogi cais Race Council Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru am gymorth ariannol i greu Mis Hanes Pobl Dduon Cymru 2019.	Cymeradwywyd
16/12/2019	Portffolio Swyddog yr Heddlu	Cais am £45,000 i greu swydd Swyddog yr Heddlu ychwanegol ym maes portffolio Dioddefwyr a Bregusrwydd i ganolbwyntio ar y Strategaeth i Ddioddefwyr.	Cymeradwywyd

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

17/12/2019	Dyraniad cyllid rhybudd amodol ar gyfer Cyflawnwyr Trais Domestig Partner Agos.	Byddai cynllun o'r fath yn rhoi cyfle i ni ymgysylltu â thua 500-600 o gyflawnwyr trais y flwyddyn, gan ddefnyddio ymyriadau ataliol ac addysg i leihau'r tebygolrwydd y byddent yn aildroseddu. Cymeradwyo cyllid o £35,000 ar gyfer datblygu'r cynllun a'i roi ar waith.	Cymeradwywyd
17/12/2019	Grymuso Goroeswyr	O fewn y Strategaeth Mynd i'r Afael Â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched 2019-2024, rydym wedi nodi y byddwn yn parhau i dargedu adnoddau er mwyn sicrhau llwybrau clir i ddiogelwch ar gyfer dioddefwyr, gan gefnogi a grymuso goroeswyr a buddsoddi mewn ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol, gan ymdrin â'r agweddau a'r ymddygiadau niweidiol sy'n arwain at drais a chamdriniaeth. Cais am gyllid o £30,000 i gefnogi'r gwaith hwn.	Cymeradwywyd

18/12/2019	Ymyriadau Teuluol	Mae rhaglen Ymyriadau teulu yn cael ei rhedeg ar hyn o bryd gan Merthyr Tudful Mwy Diogel drwy ein swyddfa a'r Gronfa Trawsnewid Gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched tan fis Mawrth 2020. Mae'r rhaglen hon yn edrych ar deuluoedd sy'n dioddef trais domestig ac sy'n dymuno parhau i fyw gyda'i gilydd, a'u galluogi i gael mynediad at gymorth iddynt ac i wneud hynny'n ddiogel neu eu cefnogi i wahanu mewn ffordd gyfeillgar. Cais am gyllid o £80,000 i ymestyn y rhaglen hon i'r flwyddyn ariannol 2020-21.	Cymeradwywyd
20/12/2019	Arian Pontio Rhannu Data Amlasiantaethol Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (NOMADS)	Mae prosiect NOMADS wedi dennu diddordeb sylweddol gan ystod eang o asiantaethau partner yng Nghymru, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae Cymru mewn sefyllfa dda i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynir drwy NOMADS drwy ei fuddsoddiad presennol mewn mentrau megis System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	Cymeradwywyd

		(WCCIS). Cais i sicrhau cyllid ychanegol o £30,000 am ddarn o waith i greu map o'r synergeddau rhwng dwy fenter a chynnwys y ddau wrth symud ymlaen.	